**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol**

**Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Mercher 8 Ebrill 2026**

**Canolfan Tywi, Llandeilo - 3.30pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau**:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL) - Dirprwy Gadeirydd
Karen Burch (KB)
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Peter Griffiths (PG)
David Gravelle (DG)
Julie James (JJ)
Julie Sweet (JS)
Laura Grant (LG)
Sandra Downey (SD)
Wyn Owen (WO)

**Ysgrifennydd** - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**

Jason Lawday (JL) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Gary Baxter (GB) – Rheolwr Strategol Amgylchfyd Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Maskell (NM) – Rheolwr Rhanbarthol Cynorthwyol Cyngor Sir Caerfyrddin (Priffyrdd)

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:

Tara Sutcliffe (TS)
Phil Snaith (PS)

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion:**

Phillip Morgan (PM) - Arweinydd Tîm CNC - Rheoli Tir y De-orllewin
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen (AVO) - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd (CYFNOD CYN YR ETHOLIAD)
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith (CYFNOD CYN ETHOLIAD)

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CA yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Mynediad i gefn gwlad
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae BHS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gymdeithas Geffylau Prydain

| **EITEM** | **CAMAU GWEITHREDU** |
|---|---|
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd CF y fforwm a darllenodd yr ymddiheuriadau.<br><br>Gan fod mynychwyr newydd yn bresennol, cyflwynodd pawb a oedd yn bresennol eu hunain a'u rôl/diddordebau mewn mynediad. | |
| **<u>Eitem 2 – Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Llwybr Dyffryn Tywi</u>**<br><br>Darllenwyd diweddariad gan Swyddog Prosiect Llwybr Dyffryn Tywi. | |
| Holodd MH PSPOa ymgynghorwyd â'r Fforwm Mynediad Lleol. Bydd CF yn mynd ar drywydd y mater | CF |
| Tynnodd JJ sylw at welliannau buddiol i groesfan ffordd Pont Cilsan, gan wella diogelwch.<br><br>Dywedodd SB y dylid canmol Cyngor Sir Caerfyrddin am gyflawni'r prosiect.<br><br>Tynnwyd sylw at broblemau parcio yn Felin-wen, a oedd yn creu gwrthdaro mae'n debyg rhwng perchennog y busnes a defnyddwyr y llwybr. Awgrymwyd bod angen arwyddion clir i sicrhau trefn. Awgrymodd GB y byddai cyfarfod cynnal a chadw Llwybr Dyffryn Tywi yn lle priodol i godi hyn.<br><br>Cododd KB y mater bod ceffylau wedi'u gwahardd rhag defnyddio'r llwybr a nododd fod hyn yn creu anghydraddoldeb o ran mynediad i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed. Mynegwyd pryder nad yw Canllawiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru yn cael eu dilyn yn lleol.<br><br>Cafwyd trafodaeth ehangach ynghylch mynediad ar geffylau i'r rhwydwaith beicio a dadleoli marchogion o dir a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer marchogaeth ond sydd bellach wedi'i ddatblygu ar gyfer cerdded a beicio yn unig. Mynegwyd nad yw Canllawiau Teithio Llesol yn cael eu dilyn. | |
| Cynigiwyd Nodyn Cyngor i dynnu sylw at effaith datblygu rhwydwaith beicio ar ddefnyddwyr agored i niwed oedd yn marchogaeth a phwysigrwydd cadw at y Canllawiau Teithio Llesol. Bydd y nodyn hefyd yn darparu enghreifftiau o lwybrau aml- | MH/KB |

| | |
|---|---|
| ddefnyddiwr lle mae mynediad gan farchogion ac sy'n gweithredu'n llwyddiannus mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU ehangach.<br><br>Cytunodd y grŵp y dylid drafftio nodyn cyngor a'i gyflwyno i aelodau'r fforwm i gael sylwadau/cymeradwyaeth.<br><br>Gofynnodd MH a yw'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn cynnal Llwybr Dyffryn Tywi? Rhoddwyd sicrwydd yn y cam datblygu na fyddai staff ac adnoddau cyfyngedig Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gynnal a chadw'r llwybr.<br><br>Cadarnhaodd CF fod y tîm Mynediad i Gefn Gwlad bellach yn gyfrifol am gynnal a chadw Llwybr Dyffryn Tywi ond oherwydd staff ac adnoddau ychwanegol, ni fydd effaith ar adnoddau Hawliau Tramwy Cyhoeddus.<br><br>Cytunodd y Fforwm nad dyma'r hyn a addawyd pan gyfarfu'r Fforwm Mynediad Lleol â swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yn gyfrifol am gynllunio prosiect Llwybr Dyffryn Tywi.<br><br>Esboniodd GB/CF fod penderfyniadau ynghylch cynnal a chadw Llwybr Dyffryn Tywi wedi bod yn drafodaeth barhaus.<br><br>Lleoli staff newydd ac adnoddau oedd wedi'u neilltuo i Lwybr Dyffryn Tywi i'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad yw'r peth mwyaf priodol.  Mae hefyd yn cael ei ystyried yn fuddiol i'r gwasanaeth ar ffurf capasiti ychwanegol – bydd Ceidwaid llwybr beicio ar gael ar gyfer dyletswyddau hawliau tramwy cyhoeddus pan fydd ganddynt gapasiti ar gael. | |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 3 – ADRODDIADAU PERFFORMIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS</u>** | |
| Cyflwynwyd 3 adroddiad chwarterol i'r fforwm, mae adroddiad ar gyfer blwyddyn lawn bellach wedi'i ddarparu. | |
| Yn gyffredinol, roedd yr aelodau yn fodlon â'r data sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiadau. Roedden nhw'n awyddus i wybod beth oedd barn Cyngor Sir Caerfyrddin ar y data. | |
| Dywedodd CF nad oedd y data yn syndod a'i fod yn darparu darlun realistig o'r gofynion a osodwyd ar y gwasanaeth. Nodwyd y bydd canlyniadau'r arolwg rhwydwaith parhaus yn darparu darlun mwy cywir o'r rhwydwaith ac yn helpu i benderfynu a yw ffyrdd newydd o weithio yn dod â chanlyniadau cadarnhaol a sut maent yn gwneud hynny. | |
| Awgrymodd RL fod angen rhagor o fanylion ar y data cyfreithiol a gyflwynwyd a nododd nad yw'r adroddiad yn esbonio'n glir y system a ddefnyddir i flaenoriaethu'r gwaith o ddatrys problemau. | |
| | CF/RL |
| Dywedodd WO hefyd nad yw'r adroddiadau cyfredol ar Brosiectau yn yr adroddiad yn darparu unrhyw fanylion i nodi pa waith sydd wedi'i wneud. | |
| Cynigiodd RL gwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin ar wahân i gynorthwyo i wneud gwelliannau i'r adroddiad. Bydd dyddiad y cyfarfod yn cael ei drefnu. | |
| Dywedodd RL fod y data yn dangos bod y tîm yn delio yn gyffredinol â materion sy'n codi, ond o drwch blewyn yn unig. | |
| | CF |
| Dywedodd CF fod dull sy'n seiliedig ar brosiect yn mynd i'r afael â materion yn fwy eang ac felly nid yw bob amser yn cyd-fynd â blaenoriaethu hierarchaeth rhwydwaith ym mhob achos. | CF/GB |
| Gofynnwyd am gynnwys data prosiect ychwanegol yn yr adroddiadau. Bydd CF yn trafod hyn gyda'r swyddog prosiect a datblygwr meddalwedd i benderfynu beth sy'n bosibl. | |
| Awgrymwyd y dylid cyflwyno'r adroddiadau perfformiad i'r Cabinet, CF/GB i'w hystyried/trafod gyda'r aelod o'r Cabinet. | |
| **<u>Eitem 4 – YMGYNGHORI Â'R FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL</u>** | |
| Dywedodd MH fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau na fydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei ymgynghori'n ffurfiol ar ymgynghoriadau teithio llesol. Dywedodd y tîm teithio llesol y gall holl aelodau'r Fforwm ymateb i'r ymgynghoriad fel aelodau o'r cyhoedd. | |
| Mae canllawiau teithio llesol cenedlaethol yn amwys ac yn agored i ddehongli. | |
| Gofynnodd KB os nad ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol, sut bydd materion mynediad ehangach yn cael eu codi? Darllenwyd adran o ganllawiau teithio llesol sy'n nodi, *'ymgynghoriad effeithiol'.* | |
| Roedd MH o'r farn nad yw'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei werthfawrogi. Hefyd, mae'n ymddangos bod y Fforwm yn canolbwyntio ar farchogaeth, ond y pwrpas yw trafod a chodi pob mater sy'n ymwneud â mynediad. | |

**Commented [AE1]:** Hynny yw, yr un penodol sy'n gyfrifol am y maes ma

| | |
|---|---|
| Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen am fwy o ymgysylltu er mwyn galluogi'r Fforwm i gyflawni ei rôl gynghorol yn effeithiol, gyda gwell cyfathrebu dwyffordd yn cael ei ystyried yn hanfodol.<br><br>Mae MH wedi cysylltu â Carys Drew (CNC) ac Ian Mabberly (Cadeirydd Cadeiryddion Fforwm Mynediad Lleol) am wybodaeth, ond nid yw wedi cael ymateb hyd yn hyn. | |
| **<u>Eitem 5 – TRAFODAETH PROSIECT GRŴP DEFNYDDWYR CILFFYRDD</u>**<br><br>Mae cyfarfod yr is-grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd wedi'i gynnal ers cyfarfod blaenorol y Fforwm Mynediad Lleol. Dywedodd CF fod yr is-grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd wedi bod yn llwyddiant o ran adolygu cynigion prosiect Cilffordd Cydweli.<br><br>Gan ddefnyddio'r arbenigedd a'r wybodaeth leol o fewn yr is-grŵp, adolygwyd a thrafodwyd cynigion prosiect a chytunwyd ar hynny gan ganiatáu i'r prosiect symud ymlaen.<br><br>Gallai defnyddio mwy o is-grwpiau Fforwm Mynediad Lleol fod o fudd i'r fforwm.<br><br>Cytunodd aelodau'r is-grŵp a oedd yn bresennol fod adolygiad y prosiect yn llwyddiannus a byddai mwy o is-grwpiau yn ddefnyddiol. | |
| **<u>Eitem 6 – FFYRDD COLL</u>**<br><br>Rhoddodd JL drosolwg i'r aelodau o beth y mae ymchwiliad Ffyrdd Coll yn ei olygu.<br><br>Darperir manylion mewn perthynas â heriau ymchwil, ffynonellau gwybodaeth a gwelliant digidol sy'n gwella argaeledd gwybodaeth.<br><br>Rhoddodd KB wybod i aelodau am gyfleoedd hyfforddi sy'n ymwneud â menter Ffyrdd Coll Cymdeithas Geffylau Prydain (BHS).<br><br>Awgrymwyd y dylai fod is-grŵp Ffyrdd Coll. Gallai'r is-grŵp fod o gymorth wrth ddatblygu prosiect Ffyrdd Coll. I'w drafod ymhellach - eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br><br>Gofynnodd RL a ellir cael rhywfaint o arian grant i helpu i ariannu'r gwaith hwn neu staff ychwanegol? Rhywbeth i'r Swyddog Prosiect CA edrych arno?<br><br>Mae prosiect arolygu gwirfoddol wedi darparu data, wedi'i gofnodi yn CAMS, mewn perthynas â llwybrau a allai fod yn addas ar gyfer hawliau uwch. Nodwyd bod y data yn ymwneud â pha mor addas yw llwybr yn hytrach na chywirdeb tystiolaeth neu hanesyddol. Fodd bynnag, mae'n darparu cronfa ddata ddefnyddiol o lwybrau y gellid eu hystyried fel rhan o brosiect Ffyrdd Coll.<br><br>Mae polisi codi tâl archifau yn effeithio ar ba mor hawdd y gellir casglu tystiolaeth.<br><br>Dywedodd JL fod llawer o wybodaeth ar gael ar-lein, a bydd yn rhannu dolenni ymchwil i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. | CF<br><br>CF/AM<br><br>JL |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 7 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u>**<br><br>- CYFLWYNIAD RHEOLI MYNEDIAD I DIROEDD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN<br><br>Bydd GB yn darparu sleidiau'r cyflwyniad a dogfen cylch gorchwyl fel y cytunwyd. Bydd CF yn dosbarthu'r rhain.<br><br>- CYFARFODYDD NESAF<br><br>Bydd MH yn rhoi gwybod am ddyddiadau cyfarfodydd yr Haf a'r Hydref, a bydd CF yn dosbarthu.<br><br>- DIWEDDARIAD YNGHYLCH COFNODION PRIFFYRDD<br><br>Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch prosiect Cofnodion Priffyrdd a beth oedd y camau nesaf? | GB/CF<br><br>MH/CF<br><br>CF |
| **<u>Eitem 13 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>**<br><br>- GWIRFODDOLWYR SIR GÂR<br><br>Mae cyllid grant ar gyfer cyflogaeth barhaus Cydlynydd Gwirfoddolwyr wedi'i sicrhau ar gyfer y 12 mis nesaf.<br><br>Gall model gwirfoddol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin bellach symud ymlaen, gan symud o arolygu i gynnal a chadw a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus. O dan y model newydd, bydd cytundebau 'Mabwysiadu Llwybr' yn cael eu sefydlu ochr yn ochr â digwyddiadau '*Snip and Stroll*' rheolaidd a diwrnodau gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus misol, gyda chefnogaeth gan y Gwasanaeth Ceidwaid.<br><br>Mae costau hyfforddi ac offer wedi'u costio a'u hariannu'n rhannol, ac mae cyfleoedd cyllido ychwanegol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.<br><br>Awgrymodd WO fod angen dosbarthu'r wybodaeth hon ac mae angen i'r model newydd ddechrau cyn gynted â phosibl. Bydd CF yn cyflwyno'r wybodaeth i swyddog prosiect a chydlynydd gwirfoddolwyr.<br><br>- STRATEGAETH FARCHOGAETH<br><br>Rhoddodd CF y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y cam presennol a'r camau nesaf o ran cyflawni strategaeth.<br><br>Rhannwyd neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer Grŵp Defnyddwyr Marchogaeth, ac mae sawl un eisoes wedi dod i law.<br><br>Mae ffurflenni cais yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddan nhw ar gael ochr yn ochr â chyhoeddusrwydd pellach ar-lein yng nghanol a diwedd mis Ebrill.<br><br>Gofynnodd yr aelodau fod ffurflenni cais yn cael eu dosbarthu i'r fforwm.<br><br>- ADFER WEDI'R STORM<br><br>Mae mwy o ystâd Coedwig Llywodraeth Cymru wedi cael ei hailagor yn dilyn storm | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>CF |

| | |
|---|---|
| Darragh.<br><br>Canmolodd yr Aelodau Cyfoeth Naturiol Cymru am y cynnydd o ystyried yr heriau a achoswyd gan natur a maint y difrod.<br><br>- DIOGELWCH LLEOLI TYRBINAU GWYNT<br><br>Roedd llafn tyrbin wedi datgysylltu yn Brechfa, a oedd yn codi pryderon diogelwch.<br><br>Roedd y llafn ddaeth yn rhydd wedi croesi ardal mynediad, pe bai wedi digwydd yn ystod y dydd gallai'r canlyniad fod wedi bod yn ddifrifol (fe ddigwyddodd am 4am).<br><br>Bydd y pellteroedd a argymhellir ar gyfer lleoli tyrbinau yn cael eu nodi mewn gohebiaeth â PEDW a TRYDAN yn ystod yr ymarfer cwmpasu.<br><br>- CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY CYMRU<br><br>Gall pobl bellach wneud cais, cyfle i orfodi PROW â chymorth.<br><br>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro datblygiadau'n agos, gydag arwyddion y gellir dilyn dull cyson Cymru gyfan.<br><br>- TRWYDDED FARCHOGAETH CNC, PEN-BRE<br><br>CNC yn cynnig adolygiad o'r system drwyddedau<br><br>Eitem ddelfrydol i'r Grŵp Defnyddwyr Marchogaeth ei hystyried a gwneud sylwadau arni.<br><br>- MARCHNATA CSC<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau am wella'r gwaith o hyrwyddo Sir Gâr a'r cyfleoedd mynediad mae'n ei chynnig.<br><br>- LLWYBR TEIFI<br><br>Agoriad mawreddog cyn hir. Mae'r tîm wedi gweithio'n galed i wella'r llwybr ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.<br><br>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud gwelliannau rhwydwaith sylweddol ac amserol fel y gofynnwyd gan grŵp Llwybr Teifi ar gyfer y lansiad.<br><br>- LLWYBR COTHI<br><br>Cynlluniau i wella Llwybr Cothi a hyrwyddo'r llwybr fel cyfleuster aml-ddefnyddiwr. I'w ychwanegu at wefan Darganfod Sir Gâr fel llwybr hyrwyddo.<br><br>Bydd yn cael ei ariannu drwy'r Grant Gwella Mynediad, a'r bwriad yw gwneud y gwaith ym Mehefin/Gorffennaf 2026. | MH |

| | |
|---|---|
| **<u>Eitem 13 – Y CYFARFOD NESAF</u>**<br><br>I'w gadarnhau | |